David Jones (Iranwoad) Merthyr Tydvil 8.60

# CWYN Y MWNGLODDIWR:

## CAN FUDDUGOL

EISTEDDFOD BETHESDA, MERTHYR-TYDFIL,
RHAGFYR 25ain, 1851.

---

I.

Do, do, mi welais yn fy nydd—Galedi mawr,
Dirboenau corff a chalon brudd—Ar lawer awr;
Yn foreu, boreu daeth i'm rhan
I ddyoddef cur a gofid gan
Helbulon byd o fan i fan,—O dan y dda'r:
Gan gur ac aeth trwm lwythog wyf,
Dihoeni mae fy nerth a'm nwyf,
Yn mol y byd 'r wyf dan fy nghlwyf—O ddwfn âr.

II.

Ni welir yma wawl y dydd,—Na gwen y lloer;
Ond t'wyllwch dudew yma sydd,—Rhwng creigiau [oer:
A'r tramwyfeydd mor llawn o ddw'r,
Nes gwlychu'n aml fferau gwr,
Heb le i droi i dy na thwr—I dwymno'r traed:
Yr awyr hefyd sydd yn ddrwg
Ac anmhur iawn gan bylor fwg,
Yrhwn bob munud awr a ddwg—Wenwyn i'm gwaed.

III.

A'r foment hon mae uwch fy mhen—Ryw garreg fawr,
A'i phwys ar frigyn bach o bren,—Bron d'od i lawr;
Os syrthio wna, 'does fan i droi
Lle gallwyf fi'n ddiangol ffoi,—
Nac oes, nis gallaf byth ysgoi,—*'Rwyf yn fy medd.*
Ac ar fy ngwaith yn trin y tir,
Mae'r cwbl oll yn crynu'n wir,—
Ow! f'einioes wyt fel oernos hir,—Heb awr o hedd.

IV.

Lluoedd o'm hen gydweithwyr prudd--Ar hyn o dro,
Yn wyw eu gwedd, a gwelw eu grudd,—Sy'n dod [i'm co';
Y rhai pan ydoedd iacha'u bron,
Ar höe ac yn bwyta'n llon,
Heb feddwl dim fod peryglon—Yn agos i'nt;
Ond mewn amrantiad, wele hwy
O dan y garn, yn myned trwy
Erch boen ac ing angeuol glwy',—Yn wael eu hynt.

V.

Ac yn eu plith, a mi yn fyw,—Dan rym o fraw,
(Er dyoddef loesion esgyrn briw)—Ymlysgais draw,
Ac awydd mawr yn llanw'm bryd
Am gael yn rhywle loches glyd,
Ond ofer im' oedd hyn i gyd,—'Run man ni chaed:
Ymrhwygai'r nen gan dori'n groes,
A syrthiodd dernyn ar fy nghoes:
Bu'm yno'n hir dan ddirfawr loes,—Mewn llyn o waed.

VI.

Bryd arall ar ben boreu glas,—Wrth newid tro,
Doi rhai i mewn, ae ereill ma's—O'r pydew glo,
Gan ddweud eu cwyn un wrth y llall;
A dwys rybuddiai'r bobl gall
Y ie'nctyd gwyllt, rhag gwneuthur gwall—Tra yn y [gwaith;
A hwythau yn ddifrifol iawn
A roisant iddynt atteb llawn,
Gan ddweud, "Y cwbl oll a wnawn,"—Mewn ufudd iaith.

VII.

Ond ar y gair, rhyw hyrtyn ffol—Yn fyrbwyll iawn,
A drodd i fan oedd nes yn ol,—Gan danchwa'n llawn;
A'r funud nesaf, grym o dân
A ysai'r cwbl yn ei fla'n,
Gan chwalu'r lle yn chwilfriw man,—A rhuo'n groch;
A degau o drueiniaid tlawd
Heb fan i ffoi rhag rhwysg ei rawd,
Yn gorfod goddef pobi'r cnawd—Mewn fflam lasgoch

VIII.

A chan y gwynt aruthrol fu—Ar ol y fflam,
Ca'dd llawer brofi angau du,—Ac ereill nam:
Wrth gael eu gyru gan y gwynt
Lawr ac i fynu ar eu hynt
Yn erbyn coed a cherrig, in't—Daeth tynghed drom.
Ow! drymed ydoedd clywed cri
Tad, brodyr a chyfeillion lu,
Yn fadfyw yno o bob tu,—Trwy'r ardal lom.

IX.

A buan iawn ymledu wnaeth—Y farwol nwy,
A chyda hyn pob llais a aeth—Yn ddistaw mwy;
Ond mi ge's fan, er dan fy nghur,
Lle'r ydoedd peth o'r awyr bur,
Gorweddais yno amser hir,—Mewn dirfawr wres;
Ac wedi treulio wyth neu naw
O oriau blin mewn poen a braw,
Mi welais oleu oddidraw—Yn nesu'n nes.

X.

Ac yn ei wawl yn glir ar g'oedd—Pan ddaeth yn mla'n,
Ce's weled pob peth fel yr oedd—Ar ol y tan;
Sef drysau a chertwyni'n ddellt
Ar hyd y lle, fel sarnfa wellt,
Gan rwysg y fflam oedd fel y mellt—O rym a llun:
A'r lle yn llawn o gnawd a gwaed,
Ymenydd hefyd, dwylaw, traed,—
A phawb yn feirw yno gaed,—Ond mi fy hun.

XI.

Bywydau pawb oedd wrth y pwll—A aeth ar goll:
Can's aeth pob congl, cell a thwll—Yn wenfflam oll;
A thaclau'r pwll yn garnedd fawr,
Ac oll yn yfflon ar y llawr,—
*Gwae, gwae erioed im' wel'd yr awr—Anffodus hon.*
O! chwi sy'n byw mor llon eich bryd
Ar wyneb da'r, yn llawn eich byd,
*Tosturiwch wrth fwnglodd iwr drud—Sydd dan y don.*

THOMAS JONES, MERTHYR.

# CWYN Y PLENTYN AMDDIFAD.

CAN FUDDUGOL EISTEDDFOD DOWLAIS, TACHWEDD 26ain, 1849.

MAE myrdd o blant mewn rhwysg a nerth
    Yn dangos gwerth rhieni;
Diwallir hwy mewn cartref clyd,
    A gwen y byd i'w lloni:
Ond tynghed arall ddaeth i mi,
    Ow! gyrrwyd fi yn grwydriad;
Goddefais wg y byd a'i wawd,
    Yn blentyn tlawd amddifad.

Bu'm lawer gwaith mewn dirfawr boen,
    Yn groenllwm a newynog,
Yn crefu'n daer am gardod fach
    Gan ddynion iach cyfoethog;
Ond gommedd wnaent, a'm gyrru i ffwrdd,
    Heb gwrdd a neb o deimlad
A fyddai yn dosturiol frawd
    Wrth blentyn tlawd amddifad.

Mae rhew ac eira'n fferu 'ngwaed,
    A'm traed yn methu cerdded,
Y cylla'n wag,—'rwy'n colli 'ngrym,
    Heb obaith im' ymwared:
Mae'r byd a'i bethau'n cilio draw,
    Mewn braw wyf bob anadliad,
Y Duw 'mddangosodd yn y cnawd,
    Clyw 'nghwyn i, dlawd amddifad.

Ha! Beth yw'r goleu disglaer mawr
    Sy'n taenu gwawr o'm deutu?
Anneirif lu, mewn gwisgoedd gwyn
    Sydd yn fy amgylchynu,—
A chlywaf lais effeithiol iawn,
    Yn llawn addfwynder cariad,
Yn d'weyd "MI FYDDAF DAD A BRAWD
    I'R PLENTYN TLAWD AMDDIFAD."

—DANIEL JONES, MERTHYR.

y plentyn Amddifad

ARGRAFFWYD GAN M. W. WHITE, MERTHYR.